



# Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau Galwad am Dystiolaeth

Cofrestru cerbydau hanesyddol,  
clasurol, wedi'u hailadeiladu a  
cherbydau a drosir i drydan

**Adroddiad crynodeb ymatebion**

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau  
Longview Road  
Treforys  
Abertawe  
SA6 7JL

**OGL**

© Crown copyright 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)  
Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys

Trosolwg	4
Cyflwyniad a chefnidir i'r galwad am dystiolaeth	4
Y broses bresennol	5
Crynodeb o ymatebion:	5
Cerbydau hanesyddol a chlasurol	5
Cynllun cerbydau clasurol wedi'u hailadeiladu	8
Cerbydau wedi'u hailadeiladu	11
Cerbydau wedi'u hadfer	16
Cerbydau wedi'u hadeiladu o git neu wedi'u trosi o git	18
Cerbydau a newidiwyd yn llwyr	20
Cerbydau wedi'u trosi i yriant trydan	23
Rhifau cofrestru Q a QNI	24
Rhif Adnabod Cerbyd (VIN)	27
Beth mae gwledydd eraill yn ei wneud	30
Sefydlu grwpiau cynghori annibynnol	30
Cwestiwn ychwanegol	31
Camau nesaf	32

# Trosolwg

Yn 2024, lansiodd yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT) alwad am dystiolaeth i gasglu barn a thystiolaeth am y polisiau sy'n llywodraethu cofrestru cerbydau clasurol a cherbydau wedi'u hailadeiladu, wedi'u hadeiladu o git, wedi'u haddasu o git, wedi'u newid yn sylweddol, clasurol wedi'u hail-greu a cherbydau sydd wedi'u trosi i drydan.

Agorodd yr alwad am dystiolaeth ar 9 Mai 2024 a daeth i ben ar 4 Gorffennaf 2024 a gwahoddwyd safbwyntiau a thystiolaeth ar 9 maes:

1. Cofrestru cerbydau hanesyddol a chlasurol
2. Cerbydau wedi'u hailadeiladu a'u hadfer
3. Cerbydau wedi'u hadeiladu o git
4. Cerbydau a newidiwyd yn llwyr
5. Cerbydau wedi'u trosi i yriant trydan
6. Rhifau cofrestru Q a QNI
7. Y Rhif Adnabod Cerbyd (VIN)
8. Beth mae gwledydd eraill yn ei wneud
9. Sefydlu grwpiau cynghori annibynnol

## Cyflwyniad a chefnidir i'r alwad am dystiolaeth

Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i bob ceidwad cerbyd hysbysu'r DVLA o unrhyw newidiadau a wneir i'w cerbyd (waeth beth fo oedran y cerbyd) sy'n golygu bod y manylion a nodir yn nhystysgrif cofrestru'r cerbyd (V5CW) yn dod yn anghywir. Mae hyn yn caniatáu i ddiweddariadau gael eu gwneud i'r cofnod cerbyd a gedwir yn y DVLA, sydd wedyn yn cael ei ddangos ar y V5CW a'i rannu â phartneriaid gorfodi'r gyfraith.

Roedd yr alwad am dystiolaeth yn egluro'r polisiau presennol, sydd wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer. Roedd y DVLA am geisio gwybodaeth arbenigol ynghylch a oes angen diweddarau'r polisiau hyn, yn enwedig i adlewyrchu technolegau esblygol sy'n cefnogi adfer ac ailadeiladu cerbydau a cherbydau sy'n cael eu trosi i drydan. Gofynnodd yr alwad am dystiolaeth hefyd ynghylch unrhyw awgrymiadau yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn a allai fod o gymorth i wella'r broses gofrestru ar gyfer y cerbydau hyn.

Yn gyffredinol, derbyniwyd 1,371 o ymatebion, gan gynnwys 1,162 gan unigolion a 129 gan y rhai a oedd yn cynrychioli sefydliadau. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn dymuno darparu ymateb gwblhau arolwg ar-lein a oedd yn cynnwys 46 o gwestiynau.

Roedd y cwestiynau'n cwmpasu:

- cwestiynau cefndirol, gan gynnwys a oedd y rhai a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth yn gwneud hynny ar ran sefydliad, neu fel unigolyn – gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd ar ran sefydliad nodi'r math o sefydliad yr oeddent yn ymateb ar ei ran
- beth yw barn ymatebwyr ar y polisiau presennol ac a oedd y rhain yn dal yn berthnasol

- a oes angen polisiâu ar wahân ar gyfer cerbydau hanesyddol a chlasurol, a cherbydau wedi'u trosi'n rhai trydan
- a ddylai'r DVLA ystyried sefydlu grwpiau cynghori annibynnol i gefnogi cofrestru cerbydau hanesyddol
- a ddylai'r DVLA ystyried unrhyw arferion gorau o wledydd eraill y gellid eu gweithredu yn y DU
- a yw'r polisi presennol o aseinio rhifau cofrestru Q i gerbydau sydd wedi'u haddasu yn dal yn berthnasol

## Y broses gyfredol

Disgrifiodd yr adran hon y prosesau cyfredol sydd ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau cofrestru. Roedd hefyd yn cynnwys enghreifftiau o newidiadau sy'n cael eu gwneud i gerbydau a sut mae'r rheolau'n cael eu gweithredu pan fydd DVLA yn asesu'r newidiadau hyn.

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn amlygu'r prif themâu sy'n codi o'r alwad am dystiolaeth. Mae'n cynnwys sylwadau gair am air a thystiolaeth a dderbyniwyd gan y rhai a ymatebodd fel unigolion, a'r rhai a ymatebodd ar ran sefydliadau.

Er y cafwyd llawer o ymatebion gan unigolion, roedd amrywiaeth eang o brofiad ac arbenigedd ymhlith y rhai a ymatebodd, gan gynnwys clybiau perchnogion cerbydau a'u cyrff llywodraethu, gwneuthurwyr ac adferwyr.

Nid atebodd yr holl ymatebwyr bob cwestiwn, a chyflwynodd rhai wybodaeth gyffredinol neu grynodedd cyffredinol.

## Cerbydau hanesyddol a chlasurol

### Cwestiwn 3.1

**Beth ydych chi'n ystyried i fod yn gerbyd hanesyddol neu glasurol? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **1,115** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

- 27% (296) – cerbyd 40 oed neu hŷn
- 20% (220) – cerbyd 30 oed neu hŷn
- 18% (201) – cerbyd 25 oed neu hŷn

Awgrymiadau eraill:

- 5% (52) – hen gerbyd neu gerbyd prin
- 3% (34) – cerbydau ddim yn cael eu cynhyrchu mwyach
- 2% (19) – cynrychioliadol o'i amser

### Cwestiwn 3.2

**Os ydych chi'n meddwl y dylai fod proses gofrestru ar wahân i gerbydau hanesyddol a chlasurol, beth fyddai'r broses gywir ar gyfer y cerbydau hyn? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **1,017** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Er bod nifer o awgrymiadau wedi'u gwneud, dywedodd 49% (500) y dylai'r broses gyfredol barhau, gyda sylwadau ar thema:

- 49% (500) – mae'r broses bresennol yn gweithio'n dda neu nid oes angen cael proses gofrestru ar wahân
- 7% (75) – cadw'r system gyfredol gyda rhai gwelliannau
- 7% (69) – yn credu y dylid cadw'r rhifau cofrestru sy'n gysylltiedig ag oedran (er bod safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylai hyn fod yn rhan o broses ar wahân ai peidio)

“I don't see why there should be a separate registration process when the current one works fine. The problem occurs when the original number has been lost and an age related plate is requested and the provenance and originality of the machine is in question. This is currently done with dating certificates from owners clubs etc”.

“I think the current process works generally although requirements for major component changes are overcomplicated. Most/many of the vehicles will have had changes.”

“It is important to maintain the history and provenance of these vehicles, therefore it is imperative they keep the original registration marks etc, to show the age and heritage of these vehicles.”

### Cwestiwn 3.3

**Os ydych chi'n meddwl y dylai fod cyfres o rifau cofrestru yn benodol ar gyfer cerbydau hanesyddol a chlasurol, sut ydych chi'n dychmygu y byddai hyn yn gweithio? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **993** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd y mwyafrif, 86% (854), nad oes angen cyfres benodol o rifau cofrestru ar gyfer cerbydau hanesyddol a chlasurol.

“I think this is already done relatively well – registration numbers should be issued to classic cars in an age-related manner.”

“I don't think this is necessary. The numbers just need to be age-related as currently done.”

### Cwestiwn 3.4

**A ddylai fod math newydd o wiriad diogelwch ar waith sy'n ystyried oedran cerbyd hanesyddol neu glasurol? Os felly, rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **1,083** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd 36% (394) yn teimlo nad oes angen math newydd o wiriad diogelwch.

Fodd bynnag, mae mwyafrif y sylwadau'n awgrymu bod angen math newydd o wiriad. Mae rhai o'r prif rai ar thema:


- 18% (196) – dylai, yr un fath neu'n debyg i'r prawf MOT presennol
- 10% (109) – dylai, gwiriad sylfaenol ar gyfer addasrwydd i'r ffordd fawr

- 8% – prawf MOT sy'n briodol i oedran y cerbyd, er enghraifft, dim angen gwirio allyriadau
- 5% – archwiliad ad-hoc pan ddefnyddir cerbyd ar y ffordd neu yn dilyn gwaith adfer mawr

“Yes an age and status-related ‘sympathetic’ style MOT would be useful, particularly for classic cars that are driven fairly regularly.”

“There should be some form of safety check to ensure vehicle is safe.”

“A one-off safety check following major restoration or repair work would be appropriate. Individual Vehicle Approval is not suitable in this context.”



### Cwestiwn 3.5

**A ddylid gwahaniaethu rhwng gwaith adfer, lle mae cerbyd sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd â hanes sefydlog, o bosibl yn cael ei adnewyddu â rhai rhannau newydd, a cherbydau wedi'u hadeiladu fel replica heb fod yn seiliedig ar gerbyd cofrestredig, ond wedi'u hadeiladu o hen rannau? Os felly, rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **1,053** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd 32% (342) yn teimlo na ddylid gwahaniaethu.

Fodd bynnag, mae mwyafrif y sylwadau yn awgrymu bod angen gwahaniaethu.

Mae rhai o'r prif rai ar thema:

- 18% (191) – dylai (gwnaethpwyd awgrymiadau cyfyngedig)
- 7% – dylai, dylid cofrestru dyblygiadau fel rhai newydd os nad ydynt yn seiliedig ar gerbyd a gofrestrwyd yn flaenorol, siasi neu ffrâm wreiddiol
- 6% – dylai, dylid cofrestru dyblygiadau fel rhai newydd neu beidio â defnyddio hen rifau VIN
- 6% – dylai, dyblygiadau i fod yn destun archwiliad diogelwch, IVA neu MOT
- 5% – dylai, dylid rhoi rhif cofrestru Q i ddyblygiadau

“Where do you draw the line? Is there any reason to change the current system?”

“A replica not based on a registered vehicle, constructed from old parts, should not qualify as a historic vehicle. However, as a significantly modified vehicle, it should be subject to IVA on first registration, much like a kit car.”

“Yes. There is already the Q reg system for vehicles made from parts.”

“Replica vehicles are a class of their own. Many of them are effectively brand new using newly manufactured parts. They are valuable in terms of historic remembrance, but they should not be considered either historic or classic because they are neither.”

## Cynllun clasurol wedi’u hailadeiladu

### Cwestiwn 3.6

**Os ydych chi’n meddwl bod y canllawiau presennol yn berthnasol o hyd, rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **762** o ymatebion i’r cwestiwn hwn.

Rhannwyd safbwyntiau bron yn gyfartal yma.

Cytunodd 40% (306) fod y canllawiau presennol yn dal yn berthnasol ac er na roddwyd llawer o resymau, y brif farn oedd nad yw’n achosi unrhyw broblemau felly nid oes angen newid pethau.

Fodd bynnag, mae ychydig o dan 40% yn credu nad yw'r canllawiau bellach yn berthnasol ac y dylid eu diweddarau. Mae rhai awgrymiadau ar gyfer gwella ar thema:

- 16% (119) – canllawiau ddim yn berthnasol bellach neu angen eu diweddarau yn gyffredinol
- 9% (65) – yn methu â chydabod bod defnyddio rhai cydrannau newydd yn anochel
- 3% – cael gofyniad MOT
- 2% – caniatáu addasiadau diogelwch

“Current guidance is ok, most of us understand it, why change it?”

“No. Things have moved on in the present classic car movement and continue to do so.”

“The current guidance is still largely relevant but fails to acknowledge that the use of some new components is likely to be unavoidable. For vehicles built with a separate body and chassis it is likely that a newly constructed body will be necessary.”

“The guidance is reasonable, but insistence on paper evidence to prove registration should be relaxed. Minor alterations (lighting, suspension, braking etc) which improve the safety of a car should be accepted.”

“Vehicles should have mot type test upon recommissioning or restoration.”

### Cwestiwn 3.7

**Beth ydych chi’n meddwl ddylai fod y diffiniad o gerbyd clasurol wedi’i ailadeiladu? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **814** o ymatebion i’r cwestiwn hwn.

Darparwyd cyfuniadau amrywiol o ddiffiniadau, a'r prif rai oedd:

- 12% (100) – wedi’i ailadeiladu i'r un fanyleb ddylunio â'r cerbyd gwreiddiol
- 12% (97) – wedi’i adeiladu gan ddefnyddio'r cyfan neu'r mwyafrif o rannau’r cyfnod
- 10% (79) – siasi, injan, corff neu flwch gêr gwreiddiol yn weddill



“A car which has been built up from mostly original components, from scratch, but long after production for that model finished.”

“Reconstructed with period parts, but allowing upgrades for safety.”

“A reconstructed classic vehicle still retains original or historical parts, such as the chassis and hence the chassis number, but features replacement, altered, or new components such as drivetrain, or power steering, air conditioning etc.”

### Cwestiwn 3.8

**Os ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol sicrhau bod rhaid i'r cydrannau a ddefnyddir i adeiladu cerbyd fod yn fwy na 25 mlwydd oed ac o fewn y cyfnod y cynhyrchwyd y model cerbyd yn wreiddiol, rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **911** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.


Mae'r mwyafrif yn anghytuno bod hyn yn briodol, a'r prif resymau yw:

- 28% (253) – anghytuno'n gyffredinol (amhenodol)
- 15% (140) – anghytuno – dylai ymwneud â'r fanyleb wreiddiol yn hytrach nag oedran
- 15% (138) – anghytuno – mae diogelwch yn bwysicach
- 10% (94) – anghytuno – rhannau gwreiddiol ddim ar gael bob amser

“Sometimes, original parts are simply not available and so a remanufacture or close it is used. It may not change the appearance or function of the vehicle but be of the same functionality.”

“No. Newly made to original or better components allowed where they increase safety, brakes, brake lines, disc brakes replacing drum brakes, abs additions, fuel cutoffs and fuel tanks.”

“The specification is more important than the age. New components are fine.”



### Cwestiwn 3.9

**Ydych chi'n meddwl y dylai'r cynllun clasurol wedi'u hailadeiladu fod yn benodol i gerbydau nad ydynt wedi'u cofrestru o'r blaen, neu a ddylai'r cynllun fod yn gymwys hefyd i gerbydau a gofrestrwyd eisoes sydd wedi cael eu hailadeiladu neu eu hadfer?**

Mae'r canlynol yn dangos canlyniadau'r 3 opsiwn a ddarparwyd i ymatebwyr, gyda'r 3 thema uchaf ar gyfer pob un:

507 (50.5%) Yn benodol i gerbydau nad oeddent wedi'u cofrestru o'r blaen (gyda 346 o ymatebwyr wedi ychwanegu sylw).

- 27% (95) – mae gan gerbydau cofrestredig hanes y gellir ei olrhain a ddylai aros gyda'r cerbyd
- 15% (51) – annheg i gymhwyso'n ôl-weithredol
- 11% (38) – nid yw cerbydau wedi'u hadfer yr un peth â cherbydau sydd newydd eu hailadeiladu

“Should only apply to vehicles not previously registered, as any work on an existing vehicle that is registered would fall into other categories.”

“There is no need to include already registered vehicles, they're already registered!”

“A vehicle that has been already registered is not reconstructed. There should be reasonable understanding that restoring a vehicle can often require the majority of the parts removing and then reattaching as part of the refurbishment process. Reconstructed should only relate to previously unregistered vehicles.”

241 (24.0%) Hefyd yn berthnasol i gerbydau sydd eisoes wedi'u cofrestru sydd wedi'u hailadeiladu neu eu hadfer (gyda 155 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).

- 30% (46) – angen gwarchod y diwydiant ceir clasurol
- 14% (22) – dylid archwilio pob cerbyd
- 10% (15) – am resymau diogelwch

“There should be flexibility to allow the recreation of existing vehicles using parts from other cars or totally new parts as necessary.”

“An examination of any restored or reconstructed vehicle is a good idea.”

“Parts are subject to wear and need replacing. A re manufactured part to original specifications with perhaps an improved safety factor should be permitted.”

256 (25.5%) Ddim yn siŵr (gyda 76 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).

- 24% (18) – dim angen dosbarthiad/cynllun ail-greu
- 9% (7) – efallai na wyddys hunaniaeth cerbyd heb ei gofrestru
- 7% (5) – anodd pennu neu orfodi

“The scheme should be scrapped. It takes away people's basic human rights to express themselves through their vehicles. Vehicles have been modified right from the birth of the automobile.”

“You need to be careful to avoid just reconstructing from a pure identity, it has to be from some 'reasonable' physical vehicle of whatever condition.”

Cafwyd sylwadau gan 42 o ymatebwyr eraill na ddewisodd unrhyw un o'r opsiynau hyn, a'r prif un oedd:

- 55% (23) – dim angen dosbarthiad neu gynllun ail-greu

### Cwestiwn 3.10

**Beth ydych chi'n ystyried i fod yn gerbyd replica o gymharu â cherbyd clasurol neu hanesyddol wedi'i ailadeiladu? Rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **929** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Ystyrir mai'r prif wahaniaethau rhwng dyblygiad yn hytrach na chlasur wedi'i ail-greu yw:

- 25% (230) – yn edrych fel un gwreiddiol ond gyda gwahanol gydrannau mawr megis y siasi, y corff neu'r injan

- 24% (225) – mae dyblygiad yn edrych fel un gwreiddiol ond wedi'i adeiladu'n bennaf, neu'r cyfan, o gydrannau newydd
- 14% (130) – mae dyblygiad yn ddynewarediad neu gopi o gerbyd gwreiddiol, heb unrhyw hanes fel arfer

“A replica is one where some of the main components are not authentic to that model or period.”

“A replica vehicle looks like the original but the parts will be different.”

## Cerbydau wedi'u hailadeiladu

### Cwestiwn 3.11

**Beth ydych chi'n meddwl ddylai fod y diffiniad o gerbyd wedi'i ailadeiladu? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **899** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Ar wahân i'r 8% (76) a ddywedodd nad oes angen diffiniad, roedd awgrymiadau'n cynnwys:


- 26% (231) – wedi'i ailadeiladu i'r fanyleb wreiddiol gan ddefnyddio cyfuniad o gydrannau hen a newydd
- 7% (65) – wedi'i ddatgymalu gyda chydrannau wedi'u hadfer neu eu hadnewyddu, yna eu hailosod
- 7% (59) – cerbyd wedi'i adfer
- 6% (56) – gyda siasi gwreiddiol, VIN neu VRN yn weddill

“One rebuilt from an original existing car.”

“Rebuilt using the original frame and as many of the original parts or period replacement parts.”

“A car which has been used but has been taken completely apart and put back together almost like new.”

“A rebuilt vehicle uses the chassis and body panels from the original vehicle. The chassis would carry the original VIN.”



### Cwestiwn 3.12

**Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau presennol yn berthnasol o hyd? Er enghraifft, a yw'n cymryd technolegau ac arloesedd sy'n dod i'r amlwg i ystyriaeth. Os felly, rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **879** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae barn gymysg ynghylch a yw'r canllawiau presennol yn dal yn berthnasol. Gwnaed nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella:

- 12% (102) – mae'r canllawiau cyfredol yn iawn ond angen eu diweddarau, er enghraifft, ar gyfer trawsnewid cerbydau i drydan
- 11% (96) – rhy gyfyngol, er enghraifft, yn ei gwneud hi'n anodd cadw hunaniaeth a rhif cofrestru gwreiddiol
- 9% (76) – ni ddylai trawsnewidiadau trydan gael eu dosbarthu fel cerbydau clasurol neu hanesyddol wedi'u hailadeiladu
- 8% (72) – dylai ganiatáu ar gyfer addasiadau ychwanegol, er enghraifft, gwella diogelwch a dibynadwyedd


“Current guidance doesn't need replacing but with anything tweaks rather than a rewrite.”

“Electric conversions need a completely separate category. They are no longer classic cars.”

“The guidance is incorrect as restoring or lightly modifying a vehicle does not change what it is.”

“If improvements in safety and reliability are available they should be permitted for classics.”

#### Perthnasedd y canllawiau cyfredol



### Cwestiwn 3.13

Os ydych chi'n meddwl y dylai fod polisïau ailadeiladu ar wahân ar gyfer gwahanol fathau o gerbydau (beiciau modur, ceir, faniau ac ati), rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.

Cawsom **781** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae'r mwyafrif, 69% (536) yn credu na ddylai fod polisïau ar wahân.

I'r rhai sydd o blaid polisïau ar wahân, mae themâu'n cynnwys:

- 5% (39) – ie neu i gyd yn wahanol
- 3% (26) – ie, ar wahân ar gyfer beiciau modur yn unig
- 2% (16) – mae angen adolygu'r canllawiau presennol neu eu gwneud yn gliriach

“No. Unnecessarily complicated.”

“Yes, motorcycles are different to 4 wheeled vehicles, a motorcycle after an incident may need a new frame, but should still be classed as the original motorcycle, even with the new frame, this does not seem to happen now.”

### Cwestiwn 3.14

TI ba raddau ddylai cerbyd gael ei ailadeiladu cyn bod angen hysbysu DVLA?  
Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.


Cawsom **912** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

- 38% (349) – os caiff ei ailadeiladu i fanyleb wahanol i'r gweithgynhyrchu gwreiddiol
- 15% (140) – ailosod eitemau wedi'u rhifo (siasi, injan, plisgyn corff)
- 11% (97) – dim neu i ddim graddau helaeth

“The appearance and functionality of the vehicle should retain a close resemblance to the original, else DVLA should be informed.”

“New chassis, repaired original is fine as is.”

“DVLA should never need informing if the vehicle is already registered. The car does not substantially change during a rebuild.”



### Cwestiwn 3.15

**A yw'r rhoi'r prif bwyslais ar gyfer asesu cerbyd wedi'i ailadeiladu ar addasiadau i'r siasi neu gragen corff unigol (neu ffrâm ar gyfer beiciau modur) yn briodol o hyd?**

**Os nad yw, beth arall y dylid ei ystyried? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Mae'r canlynol yn dangos yr ymatebion o'r 3 opsiwn a ddarparwyd i ymatebwyr, gyda'r 3 thema uchaf ar gyfer pob un:

**486 (48.6%) Ydy (gyda 112 o ymatebwyr wedi ychwanegu sylw).**

Ar wahân i'r 31% (35) sy'n credu ei fod yn dal yn briodol, mae ystyriaethau eraill yn cynnwys:

- 24% (27) – newidiadau trên pŵer (injan, trawsyriant, gyriad, ac ati)
- 8% (9) – unrhyw beth yn ymwneud â diogelwch
- 6% (7) – os yw'n newid edrychiad gwreiddiol y cerbyd

“Modifications to suspension and propulsion should also be taken into account as some people do abuse the existing system of not having to have an MOT.”

“But allowing for anything which will improve safety as long as the ‘classic appearance’ is maintained.”

“I believe that only if a modification alters the vehicle in design or appearance, should there be any problem.”

**328 (32.8%) Nac ydy (gyda 273 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).**

Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys:

- 22% (60) – dylid caniatáu atgyweiriadau siasi neu ungragen neu debyg, i wella cryfder a diogelwch
- 22% (59) – newidiadau trên pŵer (injan, trawsyriant, gyriad, ac ati)
- 9% (25) – ni ddylai addasiadau sy'n cyd-fynd â hanes y cerbyd newid hunaniaeth

“100% not the correct way. If anything with a rebuilt vehicle, the engine and other components are just as important as the chassis/monocoque. Matching numbers should also be taken into consideration.”

“Too much emphasis is on the chassis – this should be able to be renewed without changing the registration, like modern cars.”

**186 (18.6%) Ddim yn siŵr (gyda 68 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).**

- 24% (16) – dylid caniatáu atgyweiriadau siasi neu ungragen neu debyg, i wella cryfder a diogelwch
- 13% (9) – newidiadau trên pŵer (injan, trawsyriant, gyriad, ac ati)
- 9% (6) – yn dibynnu ar safon y cydrannau a ddefnyddiwyd neu ansawdd y gwaith

“It should be emphasised that alterations to a chassis or shell should only matter if they are design alterations. If for example part of a chassis has rusted and been effectively repaired, it should not be considered altered.”

“This depends very much on what is actually being done, rebuilding a Land Rover onto a new chassis should be acceptable, as it is far safer to do this than a poorly repaired old chassis.”

Ni ddewisodd 23 o ymatebwyr eraill unrhyw un o'r opsiynau ond gwnaethon nhw sylwadau, a'r brif ystyriaeth oedd ‘Newidiadau trên pŵer’ (injan, trawsyriant, gyriad, ac ati).

### Cwestiwn 3.16

**Ar ba bwynt ddylai addasiad siasi neu cragen corff unigol (neu ffrâm ar gyfer beiciau modur) effeithio ar hunaniaeth cerbyd sydd wedi cael ei adeiladu? Rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**


Cawsom **850** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

- 39% (332) – pan na chaiff ei ailadeiladu i'r fanyleb wreiddiol neu newidir ymddangosiad, er enghraifft, siâp, maint, lliw
- 20% (167) – ar ddim pwynt
- 7% (58) – pan fydd siasi, cragen corff neu ffrâm yn cael ei newid yn hytrach na'i atgyweirio

“It's appearance if the vehicle looks the same no problem.”

“At no point, providing the vehicle is fundamentally the same or can be identified as such by an average person.”

“The identity should only be affected if a new body shell or frame is fitted.”



### Cwestiwn 3.17

**Os ydych chi'n ystyried ei bod yn bwysig i ddefnyddiwr sy'n prynu cerbyd wybod os yw wedi cael gwaith ailadeiladu neu adfer mawr wedi'i wneud iddo, rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **890** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae 49% (440) yn ei ystyried yn bwysig, a'r brif thema yw y dylai dogfennaeth neu hanes y cerbyd fod ar gael i'r prynwr.

Nid yw 48% (430) yn ei ystyried yn bwysig, gyda rhesymau yn cynnwys:

- 16% (146) – cyfrifoldeb prynwr i wirio
- 12% (108) – ddim yn bwysig (amhenodol)
- 7% (65) – dylai unrhyw addasiadau fod yn amlwg i selogion

“It is important to understand the condition and history of a vehicle, all major work should be documented and that information given to the customer. This is a commercial matter and not one that would involve the DVLA.”

“No, it’s the buyers responsibility to make sure they happy with the history and any work carried out on the vehicle.”

“People buying a classic vehicle will know if it has had a rebuild or not.”

## Cerbydau wedi’u hadfer

### Cwestiwn 3.18

**Ydych chi’n meddwl y dylai cerbydau wedi’u hadfer barhau i gael eu hasesu yn unol â’r polisi presennol ar gyfer cerbydau wedi’u hailadeiladu neu a ddylai fod proses benodol ar gyfer asesu cerbydau wedi’u hadfer?**

Mae’r canlynol yn dangos canlyniadau’r 3 opsiwn a ddarparwyd i ymatebwyr, gyda’r 3 thema uchaf ar gyfer pob un:

**508 (51.2%) Parhau i gael eu hasesu yn unol â’r polisi presennol ar gyfer cerbydau wedi’u hailadeiladu (gyda 261 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).**

Ar wahân i ddweud nad oes angen newid, 63% (164), mae themâu eraill yn cynnwys:

- 6% (15) – dylai wedi’i adfer ac wedi’i ailadeiladu fod yn un categori i osgoi dryswch
- 5% (14) – MOTs i’w cynnal yn dilyn adferiad

**264 (26.6%) Dylid cael proses benodol ar gyfer asesu cerbydau wedi’u hadfer (gyda 209 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).**

Mae themâu’n cynnwys:

- 15% (32) – nid yw cerbydau wedi’u hadfer yr un fath â’r rhai wedi’u hailadeiladu
- 13% (27) – angen asesiad neu arolygiad annibynnol gan arbenigwr
- 11% (23) – MOTs i’w cynnal yn dilyn adferiad

**220 (22.2%) Ddim yn siŵr (gyda 94 o ymatebwyr yn ychwanegu sylw).**

Ar wahân i 17% (16) a ddywedodd nad ydynt yn siŵr neu’n gyfarwydd â’r polisi presennol, mae themâu eraill yn cynnwys:

- 17% (16) – dim angen archwiliad neu brawf penodol ar gyfer cerbydau wedi’u hadfer
- 16% (15) – MOTs i’w cynnal yn dilyn adferiad
- 12% (11) – ni ddylai DVLA ymyrryd

Ni ddewisodd 37 o ymatebwyr eraill unrhyw un o’r opsiynau a ddarparwyd ond ychwanegon nhw sylwadau, gyda themâu tebyg i’r uchod.



### Cwestiwn 3.19

**Beth ydych chi'n meddwl ddylai fod y diffiniad o gerbyd wedi'i adfer? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **826** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Ar wahân i 15% (122) a ddywedodd nad oes angen diffiniad ar wahân, dyma'r prif awgrymiadau:

- 25% (207) – wedi'i adfer i'r safon neu ymddangosiad gwreiddiol
- 14% (114) – wedi'i adfer gan ddefnyddio cymaint o rannau gwreiddiol â phosibl
- 5% (45) – wedi'i adfer fel y gwreiddiol, gyda nodweddion diogelwch modern

“A restored vehicle is one that has been taken apart and restored back to the original condition.”

“Restored using a combination of existing refurbished, new old stock and reproduction parts with appropriate modifications.”

“A vehicle rebuild to the concept of the original vehicle but including modern updates for reliability, safety or emissions.”

### Cwestiwn 3.20

**Os ydych chi'n meddwl y dylai fod polisiau ar wahân ar gyfer gwahanol fathau o gerbydau (beiciau modur, ceir, faniau, ac ati), rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **681** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Ar wahân i 76% (520) sy'n meddwl nad oes angen polisi ar wahân, mae safbwyntiau eraill yn cynnwys:

- 8% (57) – ie neu bob un yn wahanol felly angen eu polisiau eu hunain
- 3% (22) – polisi ar wahân ar gyfer beiciau modur
- 2% (13) – na, ond ystyried dull gwahanol ar gyfer cerbydau masnachol neu amaethyddol

“No. A restored vehicle is just that. It doesn't matter if it's a motorbike or a bus. It's had money, and a lavish attention for detail, and probably love poured in to it.”

“Different vehicles have different uses and purposes. Each type of vehicle should be assessed on its use.”

“Motorcycles are very much easier to restore and maintain than other vehicles. Components are easy to access and replace.”

### Cwestiwn 3.21

**Ar ba bwynt ddylai addasiad siasi neu gragen corff unigol (neu ffrâm ar gyfer beiciau modur) effeithio ar hunaniaeth cerbyd sydd wedi cael ei adfer? Rhowch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **761** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Ar wahân i 15% (117) nad ydynt yn cytuno y dylai addasiadau o'r fath effeithio ar yr hunaniaeth, rhoddwyd nifer o safbwyntiau gwahanol, gan gynnwys:

- 28% (215) – pan yw ymddangosiad neu swyddogaeth yn cael ei newid, er enghraifft, siâp neu faint, defnydd y cerbyd

- 8% (61) – pan yw siasi, cragen corff neu ffrâm yn cael ei newid yn hytrach na'i atgyweirio
- 7% (49) – dim ond pan wneir newidiadau sylweddol neu fawr i'r cerbyd

“When it changes the appearance or functions of that which was original but must be significant (not just something like adding a spoiler or fitting mirror that it never had before).”

“Only if replaced. Repair to the same standard should not affect identity.”

“Major change to chassis or frame.”

### Cwestiwn 3.22

**Os ydych chi'n ystyried ei bod yn bwysig i ddefnyddiwr sy'n prynu cerbyd wybod os yw wedi cael gwaith adfer mawr wedi'i wneud iddo, rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **730** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae 43% (314) yn ei ystyried yn bwysig, a'r brif thema yw y dylai dogfennaeth neu hanes y cerbyd fod ar gael i'r prynwr.

Nid yw 55% (403) yn ei ystyried yn bwysig, gyda rhesymau yn cynnwys:

- 16% (115) – cyfrifoldeb y prynwr i wirio
- 13% (93) – dylai unrhyw addasiadau fod yn amlwg i selogion
- 8% (59) – ni ddylai DVLA fod yn rhan o hyn, gadewch ef i'r gwerthwr a'r prynwr

“Only where significant changes have occurred, eg replacement of a chassis or bodyshell.”

“Buyer’s responsibility to make his her own checks that they are happy to purchase.”

“In my professional opinion, this is not really necessary. It would be up to the consumer to verify for themselves in this case, since if the vehicle is ‘restored’ rather than ‘rebuilt’ then the identity should not be in question, and thus beyond the DVLA’s reasonable scope of operation.”

## Cerbydau wedi'u hadeiladu o git ac wedi'u trosi o git

### Cwestiwn 3.23

**Os ydych chi'n meddwl bod y canllawiau presennol yn berthnasol o hyd, rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **680** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae 43% (292) yn cytuno bod y canllawiau presennol yn dal yn berthnasol ac er na roddwyd llawer o resymau, y brif farn yw ei fod yn sector bach nad oes angen ei reoleiddio ymhellach.

Mae rhai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ar thema:

- 5% (36) – gwneud newidiadau i brofi, adeiladu neu ddefnydd y cerbydau
- 5% (36) – dylai deddfwriaeth fod yn llai llym neu fod yn decach
- 3% (23) – trefnu deddfwriaeth ar wahân ar gyfer ceir wedi'u hailadeiladu a cheir cit

“There is no evidence that the current guidance is no longer relevant. Therefore, it should remain.”

“This needs simplification, it's far too complicated and doesn't allow enough reconditioned major parts rather than new.”

“Kit-built or converted should require inspection (as currently SVA).”

### Cwestiwn 3.24

**Os ydych chi'n meddwl y dylai cydrannau wedi'u hatgyflyru neu eu hailgynhyrchu gael eu hystyried yr un fath â chydrannau newydd sbon, rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **764** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae 71% (540) yn credu y dylid ystyried cydrannau wedi'u hadnewyddu neu eu hailweithgynhyrchu yr un fath â'r rhai sy'n newydd sbon. Y brif farn yw eu bod yn aml o ansawdd gwell na chydrannau newydd.

O'r 16% nad ydynt yn cytuno, dim ond ychydig o resymau a roddwyd er bod rhai yn teimlo y bydd cydrannau newydd yn fwy diogel.

“Provided manufactured to the same (or safety-improved) standards, it should not matter.”

“Reconditioned and remanufactured components should not be considered as new but as pure replacement parts.”

### Cwestiwn 3.25

**A ddylai cydrannau wedi'u hatgyflyru neu eu hailgynhyrchu gael eu hasesu i sicrhau eu bod yn bodloni'r manylebau i'w defnyddio ar gerbyd gwahanol i'r un y cawsant eu dylunio ar ei gyfer? Os felly, rhwch dystiolaeth a rhesymau i gefnogi eich barn.**

Cawsom **756** o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae 47% (351) yn teimlo nad oes angen asesiad neu nad yw'n ymarferol.

O'r rhai a roddodd reswm o blaid asesiad, mae'r sylwadau ar thema:

- 29% (222) – ie (gall hefyd gynnwys rhestr o fanylion y gydran, amgylchiadau, profion, diogelwch neu ffynhonnell)
- “No it's not necessary they are no different to new parts.”
